CARDIFF
CAERDYDD

# CYNGOR CAERDYDD
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/ Councillor: Shaun Jenkins, John Lancaster & Thomas Parkhill** **Plaid/ Party: Y Ceidwadwyr**

**Ward: Llanisien** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 4 Mai 2017**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig 2017/2018 a ddaeth i ben ar 24 Mai 2018. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim byd arall.

**Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau**
**Y Cynghorydd Jenkins:** Aelod Cabinet yr Wrthblaid dros Blant a Theuluoedd, yn craffu'r gwasanaethau a ddarperir i blant a theuluoedd ac hefyd aelod o'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol. Eistedd ar bwyllgor Cymunedau a Gwasanaethau Oedolion, lle rydym wedi craffu Economi'r Nos, Strategaeth Hybiau'r Cyngor a Strategaeth Dai'r Cyngor.
Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Y Cynghorydd Lancaster:** Y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol: Ymarfer Gorchwyl a Gorffen yn archwilio Ansawdd Aer Caerdydd; Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu Caerdydd 2018-21 Eiliais Rybudd o Gynnig ein grŵp ar wneud Caerdydd yn ddinas di-blastig defnydd untro.
Penodwyd i swydd Aelod Cabinet yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd yn ddiweddar.
Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd: Cymeradwyo'r broses o gynhyrchu a rhannu taflen wybodaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) i Yrwyr Cerbydau Hacni/Llogi Preifat i godi ymwybyddiaeth am y mater hwn.
Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Y Cynghorydd Parkhill:** Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant: adolygu'r cynllun busnes diwygiedig a chyflawni'r sgwâr canolog a'r orsaf fysus; rhan o seilwaith ein dinas y mae'n hen bryd ei chael. Yn ogystal, cefais gyfle i gyflwyno sylwadau ar gynlluniau cychwynnol i gael arena dan do newydd, metro canolog gan gynnwys adfywiad cynlluniedig Gorsaf Caerdydd Canolog.
Fe wnes i graffu a chwestiynu gweithredwr newydd Canolfan Hamdden Llanisien, yn benodol ynghylch morâl y staff, gan wella cyfraddau salwch ac adroddiadau oedd yn gwrthdaro o arolygon boddhad cwsmeriaid.

Fel Aelod Cabinet yr Wrthblaid dros Drafnidiaeth, rwyf wedi gyrru ymdrechion y grŵp i addasu strategaeth drafnidiaeth y ddinas. Arweiniodd hyn at bapur gwyrdd yn gosod camau cynnar strategaeth drafnidiaeth i'r ddinas.
Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rydym yn cynnal cymorthfeydd tair gwaith y mis, yn defnyddio lleoliadau amrywiol ledled y ward: Hyb Llanisien a agorwyd yn ddiweddar; Canolfan Gymunedol Draenen Pen-y-graig; Canolfan Hamdden Llanisien; Neuadd Eglwys St Faith.

Rydym yn cynnal ymweliadau stryd rheolaidd o amgylch y ward, i gwrdd â phreswylwyr newydd ar gerrig eu drws ac i ddod i wybod am faterion lleol.

Rydym wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn Llanisien a Draenen Pen-y-graig, gan weithio ochr yn ochr â'r Heddlu i helpu i daclo materion traffig a pharcio, goryrru ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rydym wedi ymdrin ag ystod o waith achos yn ein blwyddyn gyntaf. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae: mynychu cyfarfodydd cynllunio mewn perthynas â cheisiadau cynllunio lleol; helpu preswylwyr i sicrhau biniau newydd a gwelliannau i barc lleol; helpu'r elusen Cymdogion Da Llanisien i sicrhau bathodyn glas corfforaethol i helpu wrth gynnig trafnidiaeth i breswylwyr; gyrru am welliannau i wasanaethau bws; delio â chwynion o ran casgliadau gwastraff; trwsio tyllau yn y ffordd; trefnu deiseb yn galw ar y Cyngor i ail-wynebu Coed Glas Rd yn ei gyfanrwydd.

Yn y misoedd diwethaf, mae band eang ffibr optig Virgin wedi'i gyflwyno i Ddraenen Pen-y-graig. Rydym wedi cefnogi preswylwyr gydag unrhyw fater yn deillio o'r gwaith sydd ei angen i gyflawni hyn.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig (dim mwy na 200 o eiriau)**
Gwnaethom gymryd rhan mewn gweithgareddau codi sbwriel yn rhan o'r ymgyrch Carwch Eich Cymuned.
Gwnaethom gwrdd â chynrychiolwyr Dŵr Cymru i fonitro cynnydd Cronfa Ddŵr Llanisien.
Cynhaliom daith cyfleusterau gwastraff o amgylch Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau Ffordd Lamby, cyfleuster compostio'r Cyngor, Cyfleuster Gwastraff Organig Kelda a llosgydd Viridor. Cynhaliom ymweliad safle â Chanolfan Tanwydd Hydrogen, Baglan.
Gwnaethom lofnodi'r Siarter Clefyd Niwronau Echddygol i roi gwell cefnogaeth i bobl â'r clefyd, a'u gofalwyr.

**Gweithgareddau/Materion Eraill (dim mwy a 100 o eiriau)**
Pwyllgor Trefnu'r Clwb Rotari ar gyfer dathliad Goleuadau Nadolig Llanisien.
Gwnaethom gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian a chynyrchiadau panto grŵp ieuenctid Datguddiad Eglwys Babyddol Llanisien.
Mae'r Cynghorwyr Jenkins a Lancaster yn aelodau PCC eglwysi lleol.
Gwnaethom gefnogi mentrau Codi Arian Grŵp Sgowtiaid lleol.
Gwnaethom fynychu perfformiad codi arian elusennol côr lleol.
Gwnaethom gymryd rhan mewn rhaglen Street Auction y BBC er mwyn codi arian i elusen.
Rydym wedi mynychu sawl digwyddiad megis gŵyl Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig, digwyddiadau Mynychu a Phrynu; digwyddiadau cist car yn Ysgol Uwchradd Llanisien; arddangosfa tân gwyllt y Grŵp Sgowtiaid.

**Y Cynghorwyr Jenkins, Lancaster, Parkhill**